**Cyllideb 2012/13**

Yn fy niweddariad diwethaf, fe ddywedais wrthych am yr angen i arbed £815,000 arall yn 2012/13 ac y byddai'r mwyafrif o'r arbedion hyn yn cael eu cyflawni trwy gyflwyno system roster newydd ar gyfer ymladdwyr tân llawn amser. Yn dilyn negodi llwyddiannus rhwng Swyddogion a'r cyrff cynrychioliadol, fe weithredwyd y system roster newydd ar gyfer criwiau dydd a gorsafoedd shifft 24 awr ar 1 Ebrill a hyd yn hyn y mae'n gweithio'n dda. Yn y pen draw bydd hyn yn arbed dros £1miliwn.

O ganlyniad i'r system roster newydd, mae'r Gwasanaeth wedi sefydlu Cronfa Adnoddau Gweithredol (ORP). Yn yr ORP fe geir rhai aelodau o staff sydd wedi'u rhyddhau o wylfeydd yn dilyn gweithredu'r trefniadau roster newydd. Maent yn staff llawn amser sy'n cael eu defnyddio i ychwanegu at y criwiau mewn gorsafoedd RDS ac i sicrhau eu bod ar gael i ymateb i argyfyngau.

**Gwaith Siecio Diogelwch Tân yn y Cartref**

Gwnaed bron i 4,000 o ymweliadau diogelwch rhag tân yn y cartref ar Ynys Môn yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

Mae gweithio mewn partneriaeth a chydweithredu'n parhau i fod yn bwysig a bydd staff o wahanol asiantaethau fel Gofal a Thrwsio, Cymdeithas yr Henoed, Cymorth i Ddioddefwyr, Cymdeithas y Byddar a'r Lleng Brydeinig Frenhinol yn gwneud gwaith siecio diogelwch rhag tân yn y cartref pan ddônt ar draws eiddo heb larymau mwg neu rai sydd angen offer atal tân ychwanegol.

**Llwyfannau Ysgolion Erial**

Byddwch yn cofio bod un llwyfan ysgol erial yn dod i ddiwedd ei bywyd yn y gwasanaeth ym mis Mawrth ac roedd yr Awdurdod wedi penderfynu na fyddent yn cael ysgol lwyfan arall. Yng nghyfarfod mis Mawrth, fe benderfynodd yr Awdurdod leoli'r 3 ysgol lwyfan erial oedd ar ôl yn Wrecsam, Rhyl a Bangor.

**Deddf Gwahaniaethu o ran Anabledd a Gwaith Cydymffurfio gyda Chydraddoldeb**

Mae gorsafoedd tân ac eiddo ar draws Gogledd Cymru wedi'u moderneiddio er mwyn cydymffurfio gyda'r ddeddfwriaeth yng nghyswllt anabledd a chydraddoldeb i'r graddau y mae hynny'n rhesymol ymarferol. Mae'r gwaith hwn bron a chael ei gwblhau erbyn hyn ac mae'r holl orsafoedd ym Môn wedi cael eu huwchraddio yn y ddwy/tair blynedd ddiwethaf.